Date • Dyddiad	12 Hydref 2020
Your ref • Eich cyfeirnod	
My ref • Fy nghyfeirnod	SR-D/DT/TW
Telephone • Ffôn	01437 775030
Email • Ebost	derbyniadau@sir-benfro.gov.uk

www.pembrokeshire.gov.uk / www.sir-benfro.gov.uk

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

IAN WESTLEY, M.A. B.Eng.(Hons), C.Eng., M.I.Mech.E., M.C.I.B.S.E.
Chief Executive / Prif Weithredwr

STEVEN RICHARDS-DOWNES
Director of Education
Cyfarwyddwr Addysg

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

Teleri Williams

Annwyl Rhiant / Gwarcheidwad

YNGLYN: DERBYN I YSGOLION UWCHRADD MEDI 2021

Mae eich plentyn ym mlwyddyn 6 ar hyn o bryd a disgwylir iddo/iddi drosglwyddo i addysg uwchradd ym mis Medi 2021. Rwy'n ysgrifennu atoch i' ch gwahodd i wneud cais am le mewn ysgol uwchradd. **Os nad ydych yn gwneud cais ni ellir neilltuo lle mewn ysgol uwchradd ar gyfer eich plentyn.**

Ysgol Caer Elen/Ysgol Penrhyn Dewi yn unig – gan fod eich plentyn yn mynychu ysgol 3-16 tybir y bydd eich plentyn yn aros yn ei ysgol bresennol. Os yw hyn yn gywir, nid oes unrhyw gamau i chi eu cymryd. Fodd bynnag, os hoffech i le eilradd gael ei ystyried mewn ysgol arall, dylech gyflwyno eich cais erbyn y dyddiad cau.

Cyn gwneud cais, darllenwch y llyfryn Gwybodaeth i Rieni 2021-22 am wybodaeth am y gweithdrefnau derbyn - https://www.sir-benfro.gov.uk/mynediad-i-ysgolion/derbyniadau-i-ysgolion-gwybodaeth-i-rieni

Dylid gwneud ceisiadau ar gyfer ysgolion uwchradd Sir Benfro gan ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein drwy wefan Cyngor Sir Penfro - https://www.sir-benfro.gov.uk/ysgolion-a-dysgu .

Gallwch ddarganfod eich ysgol ddalgylch trwy deipio eich côd post yn y blwch “Gwasanaethau yn eich ardal” trwy ddilyn y ddolen hon https://www.sir-benfro.gov.uk/preswylydd a chlicio chwilio cyfeiriad. Yna, byddwch yn gallu dewis eich cyfeiriad a chlicio ar y botwm ysgolion i gael gwybodaeth.

Gallwch fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol fodd bynnag, byddwn yn eich cynghori i ddarllen y wybodaeth o ran cymhwysedd cludiant i'r ysgol - https://www.sir-benfro.gov.uk/trafnidiaeth-ysgol

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o ysgolion uwchradd Sir Benfro, ewch i'w gwefannau. Dylid gwneud ceisiadau ar gyfer ysgolion uwchradd mewn sir arall yn uniongyrchol i'r sir honno. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut i wneud cais i'r siroedd hyn ar eu gwefannau.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau eich cais erbyn y dyddiad cau, sef 20 Rhagfyr 2020. Bydd ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael eu hystyried yn hwyr a gallai hyn effeithio ar p'un a ydych yn cael lle yn yr ysgol o'ch dewis. **Bydd rhieni'n cael gwybod am ddyraniad y lleoedd ar Ddydd Llun 1 Fawrth 2021.**

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Teleri Williams
Swyddog Derbyn

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.